nodiadau'r athrawon

# Gwneud cartreff a phorthwyr i anifeiliaid



## I adar

**Bocsys nythu**

- Gellir gwneud bocsys nythu o bren â thyllau a mynedfeydd o wahanol feintiau i ddenu gwahanol rywogaethau.

**Porthwyr**

- Mae modd gwneud porthwyr o rwyll weiar a/neu bren.
- Gellir gwneud 'cacennau' o hadau a braster i lenwi potiau neu foch coed.
- Gellir paentio cymysgedd o saim ar gerdyn i wneud lluniau bwytadwy.

**Baddonau**

- Mae caeadau neu lestri bas yn gwneud baddonau da i adar.

## I fân drychfilod

**Cartrefi**

- Mae bwndeli o ddarnau o gansenni bambŵ yn gwneud llochesi da i adenydd siderog a gwenyn unigol.
- Bydd pentyrrau o goed, briciau neu gerrig yn denu amrywiaeth o fân drychfilod gan gynnwys gwrachod lludw, nadroedd miltroed a phryfed copyn.
- Llenwch botyn planhigion â gwair, yna rhowch ef ben i wared ar gansen i wneud cartref i bryfed clustiau.

**Porthwyr**

- Trochwch wlân cotwm, neu sgwrwyr sosbenni lliwgar mewn toddiant siwgr cryf a'u rhoi ar lwyfan crog i fwydo gloÿnnod byw.
- Cynheswch gwrw neu gola a siwgr brown a thriagl du ynddo yn araf a'i fudferwi. Ar ôl iddo oeri, paentiwch y cymysgedd ar goed i fwydo gwyfynod.*

## I famaliaid

**Cartrefi**

- Gallwch adeiladu bocsys pren a gwneud twnnel i fynd i mewn iddynt a thwll awyru i ddraenogod.
- Gwnewch focs clwydo i ystlumod. Mae'r rhain yn debyg i focsys adar ond gyda'r fynedfa yn y gwaelod.
- Os codwch chi flwch ystlumod, a bod ystlum yn ei ddefnyddio, bydd wedi'i warchod gan y gyfraith yn barhaol – nid dim ond pan fydd ystlum yn byw ynddo, fel yn achos nyth aderyn. Gallai hyd yn oed symud blwch yn ddamweiniol fod yn drosedd yn ôl Rheoliadau (diwygiedig) Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc) 1994.

**Porthwyr**

- Gallwch fwydo draenogod â bwyd cathod neu gŵn (ond heb bysgod ynddo) o bowlen fas. Rhowch ddŵr iddynt ei yfed o bowlen fas, ond peidiwch byth â rhoi llaeth gan y gall achosi problemau treulio.

## I amffibiaid

**Cartrefi**

- Mae potiau planhigion o bridd, neu lechi wedi eu gosod ar ongl, yn gwneud cartrefi da i frogaod a llyffantod.

## Plannu ar gyfer gloÿnnod byw

Bydd y blodau hyn yn denu gloÿnnod byw:

| | | |
|---|---|---|
| Coeden fêl | Planhigyn yr iâ | Penigan barfog |
| Ysgallen bengron | Briallu | N'ad fi'n angof |
| Ffarwel haf | Gwyddfid | Lafant |
| Gludlys | Eiddew/Iorwg | Blodau'r gannwyll/Betsan brysur |

Mae'r planhigion canlynol yn gwneud bwyd addas i lindys gloÿnnod byw:

| Planhigyn | Rhywogaethau gloÿnnod byw |
|---|---|
| Capan cornicyll | Iâr wen fach, Iâr wen fawr |
| Blodyn llefrith | Iâr wen wythiennog, Boneddiges y wig |
| Danadl poethion | Iâr fach amryliw, Y fantell goch, Iâr fach dramor a'r Peunog |

*ffynhonnell: http://www.mothscount.org/uploads/Moth_Recorders_Handbook-finding_moths_without_moth_traps(1).pdf